
# NID YN FY ENW I 2019

**Ymgyrch i Ddileu**
**Trais yn Erbyn Merched**

## Trosolwg o'r ymgyrch

Mae Trais yn Erbyn Merched yn cam-drin systematig o hawliau dynol hanfodol menywod ac yn fath o wahaniaethu yn erbyn menywod. Mae'n achos ac yn ganlyniad o anghydraddoldeb. Mae agweddau cymdeithasol tuag at fenywod a merched a Thrais yn Erbyn Merched yn ceisio esgusodi'r trais a symud cyfrifoldeb oddi cyflawnwyr i'r dioddefwyr.

Mae FfCSyM wedi bod yn ymgyrchu ar gyfer dileu Trais yn Erbyn Merched ers 2008; codi ymwybyddiaeth o natur, maint ac effaith pob math o Drais yn Erbyn Merched.




Ers 2012, mae FfCSyM-Cymru wedi gweithio gyda Joyce Watson, Aelod y Cynulliad dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru i ymgysylltu llysgenhadon gwryw i siarad yn erbyn trais gan ddynion yn erbyn merched yn ystod yr 16 Diwrnod o Weithredu yn Erbyn Trais ar Sail Rhyw (25 Tachwedd i 10 Rhagfyr) ac i ledaenu'r neges fod trais yn erbyn merched yn annerbyniol ac ni fydd yn cael ei oddef. Mae ymgysylltu â dynion a bechgyn yn hanfodol wrth herio'r anghydraddoldebau a'r agweddau sy'n achosi trais yn erbyn merched.

Mae SyM ar draws y wlad wedi cymryd rhan trwy recriwtio grwpiau gwrywaidd a rhai sy'n gwneud penderfyniadau lleol i addo eu cefnogaeth i beidio byth â chyflawni, esgusodi nac anwybyddu trais gan ddynion yn erbyn merched.

Drwy lofnodi'r addewid 'Nid yn fy Enw i' a gwisgo rhuban gwyn, mae dynion ar draws y wlad yn danfon neges pwerus – bod cam-drin domestig byth yn dderbyniol, ni ddylid ei anwybyddu a rhaid byth ei esgusodi.

## Cyffredinrwydd Trais yn erbyn Merched

- Bob blwyddyn mae tair miliwn o fenywod ar draws y DU yn cael profiad o Drais yn Erbyn Merched, sy'n cynnwys cam-drin domestig ond hefyd trais rhywiol, priodas dan orfod, cam-fanteisio rhywiol a mathau eraill o gam-drin ac aflonyddu.
- Bydd un o bob pedair menyw yng Nghymru yn dioddef trais yn y cartref dan law partner yn ystod eu bywydau.
- Bob blwyddyn, bydd 150,000 o fenywod yng Nghymru yn dioddef rhyw fath o drais ar sail rhyw.
- Mae dwy fenyw yn cael eu llofruddio bob wythnos gan eu partner neu gyn partner.
- Mae un achos o drais yn y cartref yn cael ei adrodd i'r heddlu bob munud.
- Bob blwyddyn, mae dros 300,000 o fenywod yn cael eu hymosodi yn rhywiol a 60,000 o fenywod yn cael eu treisio.
- Amcangyfrifir bod cynifer â 137,000 o fenywod a merched wedi dioddef o anffurfio organau cenhedlu benywod yn Lloegr a Chymru.

# **16 Days of Activism Against Gender-Based Violence Campaign**
**November 25 - December 10**

Mae'r 16 Diwrnod o Weithredu yn Erbyn Trais ar sail Rhyw yn ymgyrch ryngwladol sy'n dechrau ar 25 Tachwedd, Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn Erbyn Merched ac yn dod i ben ar 10 Rhagfyr, Diwrnod Hawliau Dynol. Mae'r ymgyrch yn gobeithio codi ymwybyddiaeth am drais ar sail rhyw fel mater hawliau dynol ar lefel leol, genedlaethol, rhanbarthol a rhyngwladol.

## Ymgyrch Rhuban Gwyn

Yr Ymgyrch Rhuban Gwyn yw ymdrech mwyaf y byd o ddynion yn gweithio i roi terfyn ar drais gwrywaidd yn erbyn merched. Mae'r rhuban gwyn yn symbol o wrthwynebiad dynion i drais gwrywaidd yn erbyn merched. Mae gwisgo rhuban gwyn yn addewid personol i beidio â chyflawni, cydoddef neu gadw'n dawel am Drais yn Erbyn Merched. Yn flynyddol, rydym yn annog dynion a bechgyn i wisgo rhuban gwyn am un neu ddwy wythnos, yn dechrau ar 25 Tachwedd, Diwrnod Rhyngwladol Dileu Trais yn Erbyn Merched.

## Syniadau ar gyfer gweithredu



## Cymerwch ran yn y Gystadleuaeth Nid yn fy Enw i

Fel rhan o'r ymgyrch Nid yn fy Enw i 2019, mae FfCSyM-Cymru wedi sefydlu cystadleuaeth 'Caligraffeg neu lun Celf Eiriol mewn unrhyw gyfrwng'. Gellir lawrlwytho canllawiau'r gystadleuaeth oddi ar: https://www.thewi.org.uk/s/canllawiaucystadleuaeth/

### Mynychwch ddigwyddiadau yn y Senedd ar 25 Tachwedd 2019

Bydd FfCSyM-Cymru a Joyce Watson AC yn trefnu prynhawn o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn y Senedd i nodi Diwrnod Rhyngwladol y Rhuban Gwyn gan gynnwys Gwylnos yng Ngolau Canhwyllau tu allan i'r Senedd. Anogir aelodau SyM i ymuno â ni i ddangos undeb gyda'r dioddefwyr o drais yn erbyn merched ar draws y byd ac i ledaenu'r neges bod trais yn erbyn merched yn annerbyniol ac ni fydd yn cael ei goddef. Bydd gwybodaeth bellach yn cael ei gyhoeddi ar gyfryngau cymdeithasol a'n gwefan: https://www.thewi.org.uk/s/nidynfyenwi/



*Gwylnos yng Ngolau Canhwyllau 2018*



*Gwylnos yng Ngolau Canhwyllau 2018*

## Trefnwch Wylnos yng Ngolau Canhwyllau neu ddigwyddiad i godi ymwybyddiaeth

Pam na wnewch sefydlu cysylltiadau gydag awdurdodau lleol (mae nifer wedi, neu yn gweithio tuag at, dderbyn achrediad Rhuban Gwyn) a grwpiau merched eraill yn eich ardal fel Cymorth i Ferched a Hafan Cymru i drefnu, ar y cyd, gweithgareddau codi ymwybyddiaeth.

## Recriwtiwch lysgenhadon gwrywaidd

- **Cysylltwch â llysgenhadon a grwpiau gwrywaidd** i gymryd rhan yn Nid yn fy Enw i a threfnwch i gwrdd â nhw i drafod yr Ymgyrch. Cysylltwch ag unigolion neu grwpiau yn eich cymuned fel:-
    - clybiau ffermwyr ifanc lleol a'r undebau ffermio;
    - corau meibion, clybiau rotari a llewod;
    - clybiau rygbi, pêl-droed a chlybiau chwaraeon lleol eraill; a
    - busnesau a chyflogwyr eraill yn eich ardal.

Oes gennych chi rywun enwog yn eich ardal a fydd yn medru ychwanegu ei lais i'r ymgyrch a helpu codi ymwybyddiaeth o'r mater pwysig hwn?

- **Gwnewch Rubanau Gwyn** ar gyfer y grwpiau rydych chi wedi recriwtio.

- Trefnwch **gyfle tynnu lluniau** o lysgenhadon gwrywaidd yn dal / arwyddo'r poster.

## Hyrwyddwch eich gweithgareddau

- Cyhoeddwch **ddatganiad i'r wasg** ar y cyd a defnyddiwch **gyfryngau cymdeithasol** i hyrwyddo eich gweithgareddau. Trydarwch @NFWIWales a defnyddiwch yr hashnod #NidynfyEnwi

- **Diweddarwch FfCSyM-Cymru** ar eich gweithgareddau lleol.

## Astudiaethau Achos 2018

Trefnodd **Ffederasiwn Ceredigion** cyfarfod Nid yn fy Enw i yn Aberystwyth ar 7 Rhagfyr. Yn y cyfarfod, ymunodd cynrychiolwyr o'r heddlu, gwasanaeth tan, lloches a'r Geidiau gydag aelodau. Roedd y siaradwyr wedi cynnwys Joyce Watson AC, Elize Freeman, Uned Cam-drin ac Esgeulustod ym Mhrifysgol Aberystwyth ac Ann Jones, Is-Gadeirydd FfCSyM.

Ar yr un diwrnod, trefnodd **SyM Aberporth** digwyddiad codi ymwybyddiaeth tu allan i Neuadd y Dref yn Aberteifi.

Cynhaliodd Ffederasiwn Gwent Gwasanaeth Cynnau Cannwyll yn Eglwys Sant Ioan, Rogerstone ar 23 Tachwedd. Roedd y Parchedig Christopher Stone wedi arwain y gwasanaeth gan ddarparu pregeth gref a ddarparodd Rachel Munday o Hafan Cymru cyflwyniad byr am waith yr elusen mewn helpu menywod a theuluoedd, ynghyd â dynion, sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig. Roedd y côr Singing for Pleasure o Grŵp Wentloog wedi perfformio anthem a ddilynwyd hyn gyda darlleniadau a gweddïon.

## Enillydd y Gystadleuaeth Torch Allwedd Rhuban Gwyn 2018

Llongyfarchiadau i Jennifer Poole, SyM Freystrop & District, Ffederasiwn Sir Benfro ar ennill y gystadleuaeth. Yn ail orau oedd Marian Martin, SyM Panteg, Ffederasiwn Gwent a Margaret Gould, SyM Stepney, Ffederasiwn Sir Gâr.







*Cais buddugol gan Jennifer Poole*



*Torch allwedd ail-orau gan Margaret Gould*



*Torch allwedd ail-orau gan Marian Martin*

## Adnoddau ar gyfer aelodau

- Poster Nid yn fy Enw i.
- Cyflwyniad PowerPoint i aelodau i'w defnyddio i siarad â grwpiau.
- Templed llythyr a datganiad i'r wasg.
- Taflen gwybodaeth.
- Rhestr o wasanaethau cymorth i ddioddefwyr trais:- http://livefearfree.gov.wales/how-to-get-help/i-need-help/domestic-abuse-and-sexual-violence/?skip=1&lang=cy

Mae'r adnoddau uchod ar gael i'w llawrlwytho oddi ar My WI a gwefan Sefydliad y Merched yn:-https://www.thewi.org.uk/s/nidynfyenwi/

Mae adnoddau ychwanegol megis posteri a rhubanau gwyn ar gael o'r Ymgyrch Rhuban Gwyn ar http://www.whiteribboncampaign.co.uk/

## Gwybodaeth Bellach

Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliad y Merched - Cymru
19 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd CF11 9HA

**Ffôn:** 029 2022 1712

**E-bost:** s.thomas@nfwi-wales.org.uk

**Gwefan:** http://www.thewi.org.uk/wi-in-wales